Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun y Brenin Harri VIII

**Hen Ffordd Henffordd**
**Y Fenni**
**Sir Fynwy**
**NP7 6EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun y Brenin Harri VIII

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun y Brenin Harri VIII |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1063 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 921 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 141 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 17.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 23.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/12/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 14/11/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Yn ystod pandemig COVID-19, roedd yr ysgol yn llwyddiannus wrth gynorthwyo disgyblion a staff, gan gynnwys darparu cymorth cryf ar gyfer lles emosiynol disgyblion. Ceir ystod eang o gymorth buddiol ar gyfer disgyblion bregus, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Er bod y trefniadau i gadw dysgwyr yn ddiogel mewn cyfnod o darfu sylweddol i safle'r ysgol yn gadarn ar y cyfan, tynnwyd sylw'r ysgol at ychydig o faterion iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

Mae'r ysgol wedi cymryd ymagwedd gadarnhaol at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae ganddi weledigaeth glir sy'n cael ei harddel ar draws yr holl feysydd cyfathrebu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau addysgu, dysgu ac ymddygiad cyson dda. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos parch at eu hathrawon a'u cyfoedion, ond mewn tua hanner y gwersi, mae gwendidau mewn addysgu ac ymddygiad amhriodol yn cyfrannu at y ffaith nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol. Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn cynllunio ar gyfer datblygiad graddol medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol disgyblion yn ddigon strategol na datblygiad medrau Cymraeg disgyblion.

Er bod prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn berthnasol, ni chânt eu cyflwyno â thrylwyredd neu ffocws digonol. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn nodi'n fanwl gywir beth yw'r cryfderau sylweddol a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu a dysgu.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol. Maent yn deall sut i ddilyn ffordd iach o fyw a phwysigrwydd gofalu am eu hiechyd meddwl. Mae llawer o ddisgyblion yn unigolion hyderus, huawdl a gofalgar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn ddysgwyr cyfrifol, brwdfrydig ac uchelgeisiol. Maent yn dangos balchder yn eu dysgu ac yn gosod esiampl dda ar gyfer disgyblion iau, ar y cyfan.

## Argymhellion

A1 Gwella effeithiolrwydd addysgu ac asesu fel bod disgyblion yn cael eu herio'n gyson i gyflawni eu potensial

A2 Cryfhau'r prosesau hunanwerthuso fel eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar yr effaith ar gynnydd disgyblion ac yn rhoi barn fanwl gywir i arweinwyr am feysydd i'w datblygu yn yr ysgol

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, a'u monitro, gan gynnwys yn y Gymraeg

A4 Cryfhau ymagweddau at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, prydlondeb a phresenoldeb

A5 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mewn gwersi, mae ychydig mwy na hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda, a gallant gymhwyso eu dealltwriaeth mewn cyd-destunau newydd. Mewn gwersi Ffrangeg, er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth o amserau'r ferf, cytundebau ansoddeiriol a safle rhagenwau yn llwyddiannus, wrth ysgrifennu'n annibynnol. Gwelir medrau disgyblion o ran galw i gof a chymhwyso mewn mathemateg hefyd pan fyddant yn lluosi a rhannu rhifau degol. Fodd bynnag, ni roddir cyfle bob amser i ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth neu gymhwyso'r wybodaeth mewn cyd-destunau gwahanol neu fwy heriol. Nid yw bron i hanner y disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud. Mae hyn yn aml oherwydd diffygion mewn addysgu, gan gynnwys rheoli ymddygiad neu agweddau gwael disgyblion at ddysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae'r rhai nad ydynt yn gwrando â sylw a pharch digonol yn methu gwybodaeth a chyfarwyddiadau a fyddai'n fuddiol i'w dysgu. Pan fydd disgyblion yn cael y cyfle ac mae disgwyliadau athrawon yn glir, mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio geirfa briodol i roi ymatebion manwl gywir priodol ar lafar. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan fywiog mewn trafodaethau am y cysylltiad posibl rhwng gemau fideo ac ymddygiad treisgar, a ph'un a oes yna unrhyw amgylchiadau y gellir ystyried bod rhyfel yn fuddiol ynddynt. Mae ychydig o ddisgyblion yn huawdl iawn ac yn defnyddio geirfa aeddfed, sy'n soffistigedig o bryd i'w gilydd. Mae lleiafrif o ddisgyblion sy'n amharod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth neu ateb cwestiynau'r athrawon. Yn aml, nid oes gan y disgyblion hyn hyder yn eu medrau llafar neu nid ydynt yn syml yn dewis ymgysylltu'n dda â'u dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen er gwybodaeth yn llwyddiannus, er enghraifft wrth chwilio am ffynonellau hanesyddol i ymestyn eu dealltwriaeth o gyd-destun nofelau fel 'Of Mice and Men'. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn annibynnol i helpu eu gwerthfawrogiad o farddoniaeth fel 'Dulce et Decorum Est' gan Wilfred Owen, a 'Mametz Wood' gan Owen Sheers. Er bod lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd symud y tu hwnt i nodi technegau llenyddol yn sylfaenol ac yn methu trafod eu heffaith o hyd, mae ychydig ohonynt yn gwneud sylwadau treiddgar a diddorol am ddefnydd awduron o iaith, fel rhethreg Old Major yn 'Animal Farm'. Mewn hanes, mae disgyblion yn cyfosod gwybodaeth yn llwyddiannus o ystod o ffynonellau i lunio adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth o waith yr heddlu yn achos 'Jac y Llarpiwr'. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn defnyddio amrywiaeth ddigonol o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu mewn gwahanol bynciau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu sydd wedi'i strwythuro'n addas ac sydd, mewn ychydig o achosion, yn ddifyr iawn. Mewn Ffrangeg, er enghraifft, mae disgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu ar thema dewisiadau teledu, gan ymateb yn effeithiol i adborth yr athro, a chywiro camgymeriadau blaenorol. Fodd bynnag, mae tua hanner y disgyblion yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol fel

cymysgu amserau'r ferf, defnyddio is-gymalau yn hytrach na brawddegau cyflawn, a sillafu ac atalnodi anghywir. Nid yw digon o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am wella cywirdeb a chynnwys technegol eu hysgrifennu cyn ei gyflwyno i'r athro.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau adio, tynnu a lluosi yn hyderus mewn mathemateg ac mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm. Er eu bod yn cymhwyso'r rhain yn dda mewn cyd-destunau perthnasol, er enghraifft wrth gyfrifo a chymharu biliau cyfleustod, nid yw ychydig o ddisgyblion yn sicr pan fyddant yn cwblhau cyfrifiadau â sawl cam, yn enwedig pan fyddant yn cynnwys rhannu. Hefyd, mae disgyblion yn dibynnu gormod ar lwybrau byr, er enghraifft i aildrefnu fformiwlâu, yn hytrach na defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth fathemategol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu, llunio a phlotio graffiau yn briodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau digidol yn briodol wrth greu cyflwyniadau. Mae disgyblion yn gwneud defnydd addas o swyddogaethau meddalwedd sylfaenol, gan gynnwys dylunio â chymorth cyfrifiadur (CAD), i dynnu llun siapiau 3-d yn ôl graddfa. Mae defnydd disgyblion o dechnoleg yn ymestyn i'w gwaith Her Sgiliau wrth greu taenlenni i bennu costau creu cynnyrch. Ers y pandemig, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio platfformau dysgu ar-lein yn dda i gefnogi eu dysgu unigol a chydweithio ar dasgau ar y cyd. Mewn rhai pynciau, mae disgyblion yn defnyddio offer digidol yn greadigol i ddylunio logos a deunydd hyrwyddo arall ar gyfer stondinau ffuglennol yng ngŵyl fwyd Y Fenni. Fel rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau, wrth ymchwilio i gostau i greu a dosbarthu cynnyrch, mae disgyblion yn dangos y gallant fod yn feddylwyr gwahanol trwy holi, gofyn am atebion amgen a herio rhagdybiaethau.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cymedrol yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn datblygu eu geirfa yn briodol ar y cyd â'u gallu i gasglu ystyr o gyd-destun brawddegau. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu cynnig atebion un gair addas i gwestiynau syml, mae'r mwyafrif ohonynt yn ei gweld yn heriol llunio atebion cydlynus mwy estynedig. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau heblaw yn eu gwersi Cymraeg yn ddigon aml.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn ddysgwyr brwdfrydig ac ymroddgar. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o gysyniadau allweddol ac yn galw dysgu blaenorol i gof. Fel arfer, maent yn cymhwyso'r ddealltwriaeth yn llwyddiannus i ymestyn dysgu pellach, gan gynnwys datblygu eu dealltwriaeth o'r modd y caiff iaith y cyfryngau ei defnyddio mewn radio i gyfleu ystyr ac ysgogi emosiynau, ac i ystyriaethau meddylgar am ffynonellau hanesyddol yn ymwneud â Rhyfel Cartref America.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at drafodaethau grŵp ac yn gofyn cwestiynau diddorol. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn cydweithio'n effeithiol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â'u hathrawon, y tîm lles a'r staff cymorth. Maent yn dangos parch at eu cyfoedion a'u hathrawon mewn gwersi, ac yn glynu at god ymddygiad yr ysgol, sef '3R i fod yn barod (ready), yn

barchus (respectful) ac yn gyfrifol (responsible)’. Mae bron pob un o’r disgyblion yn hyderus wrth fynegi eu safbwyntiau a’u barnau am yr ysgol, ac yn awyddus i rannu enghreifftiau o’u gwaith a’u profiadau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cwrteisi a pharch at ymwelwyr.

Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos brwdfrydedd am eu dysgu. Maent yn dyfalbarhau pan gânt eu herio, ac yn dyfeisio atebion addas i broblemau. Maent yn ymgysylltu’n gadarnhaol ac wedi ymrwymo i’w dysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio. Mae hyn yn digwydd yn benodol mewn gwersi lle mae gofyn iddynt weithio’n annibynnol neu ble mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel.

O roi’r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio’n effeithiol mewn parau a grwpiau. Mae’r disgyblion hyn yn dangos gwerthfawrogiad am gyfraniad pobl eraill, ac yn parchu eu barn. Pan gaiff adborth llafar ac ysgrifenedig ei roi yn effeithiol, mae disgyblion yn aml yn ymateb yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn deall sut mae adborth yn symud eu dysgu ymlaen.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn ymddwyn yn briodol. Nid ydynt yn ystyried eu cyfoedion a’u hathro. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi’n hwyr neu’n dod o hyd i resymau i adael eu gwersi. Mae hyn yn tarfu ar eu dysgu nhw a dysgu disgyblion eraill. Wrth symud o gwmpas safle’r ysgol, mae ychydig o ddisgyblion yn rhy afreolus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn amharod i ddefnyddio’r toiledau yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio gan nad ydynt yn hoffi’r amgylchedd, a ddim bob amser yn teimlo’n ddiogel.

Mae disgyblion bregus sy’n troi at y tîm lles eang yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Maent yn gwerthfawrogi’r ymyrraeth dargedig a gânt yn fawr, ac mae hyn yn gwneud gwahaniaeth i’w hunan-barch a’u hiechyd meddwl. Mae disgyblion iau yn gwerthfawrogi aelodau chweched dosbarth y Gwasanaeth Gwrando Gweithredol i Ddisgyblion (PALS) sy’n cael eu pennu i bob dosbarth.

Mae disgyblion o bob oedran yn cael amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau arwain trwy ddod yn Llysgenhadon Chwaraeon, yn Llysgenhadon Lles, PALS a chynrychiolwyr y cyngor ysgol. Maent wedi cael hyfforddiant gwerth chweil i ymgymryd â’r rolau hyn. Mae PALS yn mynychu ac yn cynnal gwasanaethau ac yn cynorthwyo â myfyrio dyddiol mewn amser dosbarth, yn ogystal â gweithgareddau llythrennedd a rhifedd.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi’r cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o glybiau amser cinio a chlybiau ar ôl yr ysgol, fel rygbi i fechgyn a merched, traws gwlad, gwyddbwyll, dawnsio a grwpiau cymorth LHDTC+. Mae cyfraddau cyfranogi yn y gweithgareddau cyfoethogi hyn yn uchel. Mae grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 7, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn falch o fod yn aelodau o glwb technoleg arloesol a mentrus, sy’n ailgylchu capiau poteli plastig o’r ysgol i greu cylchau allweddi a matiau diodydd i’w gwerthu mewn siopau lleol.

Mae mwyafrif y disgyblion iau yn teimlo bod ganddynt lais yn yr ysgol ac yn dylanwadu ar newidiadau. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn unig sy’n teimlo’r un fath. Mae disgyblion wedi dylanwadu ar yr opsiynau ar gyfer gweithgarwch mewn gwersi addysg gorfforol, sy’n cynnwys chwaraeon cystadleuol a

chwaraeon nad ydynt yn gystadleuol. Mae hyn wedi cynyddu cyfranogiad merched yn arbennig. Mae aelodau o’r cyngor ysgol yn mynegi eu hunain yn aeddfed ac yn ymfalchïo mewn cynrychioli eu cyfoedion.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn deall sut mae diet ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd iach o fyw. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda o strategaethau i gefnogi eu hiechyd meddwl.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhydd o fwlio. Fodd bynnag, pan fydd bwlio’n digwydd, nid yw disgyblion bob amser yn teimlo yr ymdrinnir yn briodol ag achosion honedig o fwlio neu aflonyddu.

Er bod presenoldeb wedi gwella’n sylweddol ers y llynedd, mae ychydig o ddisgyblion yn absennol yn barhaus. Mae presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn yn is na phresenoldeb disgyblion eraill yn yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn a chyfoes, ac maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir sy’n helpu disgyblion i ddeall sut i gwblhau tasgau. Mae’r mwyafrif ohonynt yn fodelau iaith da ac yn hyrwyddo defnydd cywir o derminoleg sy’n benodol i bwnc. Mae staff cymorth yn cydweithio’n dda ag athrawon ac yn gweithio’n bwrpasol gyda disgyblion i’w helpu i ddyfalbarhau a gwneud cynnydd.

Mewn ychydig o wersi, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o’r hyn y gall disgyblion ei wneud, ac maent yn cynllunio’n ofalus i sicrhau dysgu disgyblion. Maent yn defnyddio holi’n dda i brocio dealltwriaeth disgyblion, dyfnhau eu meddwl a’u herio i ddatblygu eu hymatebion ar lafar. Mae’r athrawon hyn yn addasu cyflymdra a chyfeiriad eu gwersi’n fedrus wrth ymateb i gynnydd disgyblion.

Mewn tua hanner y gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn darparu gwaith sy’n herio disgyblion yn briodol, ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus. Mewn lleiafrif o wersi, mae arferion ystafell ddosbarth a gweithgareddau dechreuol cryf yn ennyn diddordeb disgyblion yn briodol, ac yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae diffygion pwysig mewn tua hanner y gwersi yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Yn aml, nid yw cyflymdra’r gwersi hyn yn gweddu’n ddigon da i anghenion disgyblion, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion yn cynnal eu ffocws ar ddysgu. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio’n ddigon da i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion. Yn hytrach, maent yn cynllunio gweithgareddau sy’n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach na meddwl yn ddigon gofalus am yr hyn maen nhw eisiau i ddisgyblion ei ddysgu. Nid yw’r gwersi hyn yn ennyn nac yn symbylu chwilfrydedd disgyblion yn ddigon da, ac mae hyn yn cyfrannu at y ffaith nad ydynt yn gwneud cynnydd priodol.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth buddiol ar lafar i ddisgyblion, er enghraifft trwy fynd i’r afael â chamdybiaethau. Fodd bynnag, nid yw’r athrawon hyn yn modelu nac yn enghreifftio gwaith yn ddigon da. Yn aml, maent yn gofyn cwestiynau caeedig yn

bennaf, ac nid ydynt yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i ddisgyblion ar eu gwaith a chyfleoedd defnyddiol i wella'u gwaith neu ymestyn eu dealltwriaeth, ond mae gormod o amrywiad yn ansawdd adborth ysgrifenedig, ar y cyfan. Yn aml, mae'n rhy gyffredinol, neu'n gysylltiedig ag ymdrech, ac nid yw'n gofyn am ymateb gan ddisgyblion. Mae'n cyfyngu ar gyfleoedd iddynt wella eu gwaith hefyd.

Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o ddata yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys data yn gysylltiedig â gallu, cynnydd ac ymgysylltiad disgyblion. Caiff y data hwn ei ddadansoddi a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd ar adegau strategol yn ystod y flwyddyn, ac mae'n helpu nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni'n rheolaidd am gynnydd eu plentyn trwy gyfarfodydd rhieni ac amrywiaeth o adroddiadau. Fodd bynnag, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd yr adroddiadau ac yn eu defnyddioldeb. Er enghraifft, nid ydynt bob amser yn nodi'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn dda neu'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac yn bodloni eu diddordebau. Mae hyn yn cynnwys ystod eang ac addas o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ac arweiniad buddiol yn ystod y broses opsiynau, a gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddilyn eu dewis o bynciau.

Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ystod gwersi ar wahân. Rhoddir cyfle buddiol i ychydig iawn o ddisgyblion a fynychodd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg astudio Cymraeg ar lefel UG yng nghyfnod allweddol 4. Ar wahân i wersi Cymraeg, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r iaith a dathlu treftadaeth a diwylliant Cymru yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol wedi arddel ymagwedd ryngddisgyblaethol at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon wedi cyd-greu gweledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm yr ysgol ym mhob maes dysgu, ac wedi sefydlu prosesau addas i werthuso a mireinio cynllunio'r cwricwlwm. Mae staff yn dechrau creu cysylltiadau pwrpasol rhwng pynciau i ehangu dysgu disgyblion. Er enghraifft, mewn gwersi addysg gorfforol, mae disgyblion yn pennu faint o egni maent wedi'i ddefnyddio yn ystod ymarfer corff, ac wedyn mewn technoleg bwyd, yn gwneud pryd bwyd sy'n cynnwys y cyfrif calorïau cyfwerth.

Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw ymagwedd yr ysgol yn ddigon systematig o ran sicrhau ymdriniaeth a dilyniant yn y medrau hyn y tu hwnt i Flwyddyn 7. Hefyd, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen wedi'u cyfyngu i ystod gyfyng o bynciau. Mae ansawdd yr adborth ar fedrau ysgrifennu disgyblion yn rhy amrywiol ac mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd mewn meysydd allweddol, fel sillafu, atalnodi a gramadeg.

Mae arweinwyr medrau yn rhoi cymorth ac arweiniad defnyddiol i athrawon i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Mae'r cymorth hwn hefyd yn ymestyn i diwtoriaid sy'n cyflwyno rhaglenni darllen a rhifedd buddiol yn

ystod amser dosbarth. Mae rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ar waith i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion penodol.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) strwythuredig yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, er enghraifft ynglŷn â bwyta'n iach, perthnasoedd, camddefnyddio alcohol a sylweddau, a diogelwch ar-lein. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol sy'n cefnogi ac yn ymestyn cyflwyno'r cwricwlwm ABCh, er enghraifft o ran hanes a phrofiadau cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a LHDTC+.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr i ddisgyblion ddilyn diddordebau creadigol a chwaraeon mewn agweddau fel dawns, drama, rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn gofalu'n angerddol am les disgyblion ac yn sensitif i'w hamgylchiadau personol. Mae gan yr ysgol ystod helaeth o ddarpariaeth deilwredig i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n cael trafferth â'u lles emosiynol a'u hiechyd meddwl. Er enghraifft, mae staff sydd wedi cael hyfforddiant arbennig ar gael trwy gydol y dydd yn yr Hyb, sef canolfan galw i mewn yr ysgol ar gyfer disgyblion bregus. Mae gan ychydig o ddisgyblion bàs Hyb, sy'n eu galluogi i adael gwers a cheisio cymorth neu loches. Mae'r ddarpariaeth hon yn helpu atal materion lles rhag dwysáu ac yn cynorthwyo disgyblion bregus i aros yn yr ysgol a chymryd rhan mor lawn ag y bo modd yng ngweithgareddau'r ysgol.

Mae'r tîm lles yn monitro effaith y cymorth ar gyfer lles disgyblion yn agos ac yn darparu diweddariadau buddiol i staff, rhieni ac asiantaethau allanol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys system fyw ddefnyddiol a diweddariad cryno wythnosol ar gyfer pob aelod o staff am faterion y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt ynghylch disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae gan yr ysgol raglen 'iechyd a hapusrwydd' sy'n defnyddio dyddiadau allweddol trwy'r flwyddyn i hyrwyddo materion cyfoes a digwyddiadau crefyddol a dathlu amrywiaeth a gweithgareddau arbennig eraill.

Mae gan gydlynydd ADY yr ysgol drosolwg trylwyr o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau unigol ar gyfer disgyblion ag ADY yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau, yn ogystal â rhai rhieni, staff ac asiantaethau allanol perthnasol. Mae'r cynlluniau'n glir ac yn amlinellu strategaethau a gweithgareddau ymyrraeth priodol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan staff, ar y cyfan, i ddiwallu anghenion disgyblion. Caiff y cynlluniau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn cefnogi cyfnod pontio disgyblion ag ADY o ysgolion cynradd yn arbennig o dda.

Mae gan yr ysgol ystod o strategaethau buddiol i hyrwyddo presenoldeb da ar ôl pandemig COVID-19. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithio'n sensitif gyda'r ychydig iawn o ddysgwyr a oedd yn amharod i ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig,

a'u teuluoedd. Mae hyn wedi cynorthwyo'r disgyblion hyn i ddychwelyd a gwella eu presenoldeb yn sylweddol eleni o gymharu â'r llynedd. Mae'r ysgol wedi mwy na haneru nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus eleni o gymharu â'r llynedd, er bod ychydig o ddisgyblion yn absennol yn barhaus o hyd.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn briodol, er bod ychydig o faterion iechyd a diogelwch wedi cael eu nodi yn ystod yr arolygiad. Mae staff ar bob lefel yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel, ac yn ymateb i unrhyw bryderon y maent yn eu codi neu ddigwyddiadau sy'n codi. Caiff staff eu hyfforddi ar lefel briodol, ac maent yn cael hyfforddiant ar ystod o destunau yn gysylltiedig â lles a diogelwch disgyblion. Mae gan yr ysgol systemau cadarn i gofnodi manylion priodol am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â lles a diogelwch disgyblion, ac maent yn cofnodi gwybodaeth ynglŷn â ph'un a yw digwyddiadau'n ymwneud â nodwedd warchodedig fel hil neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ysgol yn nodi'n ofalus ei chamau gweithredu i ymateb i ddigwyddiadau, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddisgyblion, rhieni, staff ac asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Ym mis Medi 2021, cyflwynodd yr ysgol 'bolisi perthnasoedd' sy'n hyrwyddo perthnasoedd ac ymddygiadau cadarnhaol yn fuddiol. Hefyd, mae'n nodi sut dylai staff ymateb i ymddygiadau negyddol. Fodd bynnag, mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n anghyson mewn gwersi ar draws yr ysgol. Mae hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at ymddygiad gwael mewn lleiafrif o wersi. Yn ychwanegol, nid yw staff yn goruchwylio ardaloedd allweddol o'r ysgol yn ddigon da pan fydd disgyblion yn symud rhwng gwersi, ac o ganlyniad, yn aml, ni chaiff disgyblion eu herio pan fyddant yn gwasgu a gwthio disgyblion eraill yn beryglus o gwmpas coridorau cul, wrth ddrysau ac ar risiau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth dros dro yn arweinydd tosturiol sydd wedi darparu sefydlogrwydd i'r ysgol yn ystod cyfnod heriol iawn. Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth briodol ar gyfer gwella'r profiadau dysgu a gaiff disgyblion, a sicrhau tegwch i'r rhai sy'n profi anfantais. Mae bron pob un o'r staff yn arddel y weledigaeth hon. Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau fel cynllunio ar gyfer y ddeddfwriaeth ADY newydd, cydweithio rhwng adrannau yn eu cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a chymorth ar gyfer lles emosiynol disgyblion. Ceir diwylliant diogelu priodol yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar sicrhau addysgu a dysgu neu ymddygiad disgyblion o ansawdd cyson uchel.

Caiff rolau a chyfrifoldebau ar draws yr uwch dîm arweinyddiaeth eu dosbarthu'n synhwyrol. Mae rheolwyr llinell yn gefnogol a cheir rhaglen gynhwysfawr o gyfarfodydd i rannu gwybodaeth a thrafod agweddau perthnasol ar waith yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn frwdfrydig. Maent wedi sicrhau lefelau uchel o gymorth ar gyfer disgyblion ac yn datblygu profiadau dysgu diddorol ar eu cyfer. Mae gan ryw hanner yr arweinwyr pwnc ddisgwyliadau sy'n briodol o uchel o ansawdd addysgu, dysgu ac ymddygiad disgyblion yn eu hadrannau. Fodd bynnag, nid yw gweddill y rhain yn ddigon clir am sut i ysgogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.

Mae partneriaethau â rhieni a rhanddeiliaid eraill yn gryf. Mae uwch arweinwyr yn cyfathrebu'n dda â rhieni trwy gylchlythyrau, gwefan yr ysgol a chyfleoedd i rannu eu barn gyda'r pennaeth mewn 'sesiynau drws agored'.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn deall eu rôl yn dda, gan gynnwys sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cynnig her briodol i arweinwyr ar lawer o faterion ac yn eu cynorthwyo'n dda â phenderfyniadau gwariant. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr wedi cael gwybodaeth ddigon realistig am ansawdd yr addysgu neu'r dysgu gan arweinwyr er mwyn herio neu gynorthwyo'r ysgol â'r agweddau hyn.

Ar y cyd â'r rheolwr busnes, mae arweinwyr yn rheoli gwariant yn dda. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn dda, er enghraifft i gynorthwyo disgyblion â'u medrau rhifedd a llythrennedd a sicrhau eu bod yn gallu profi gwibdeithiau ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau rheoli perfformiad sy'n arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol addas. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn yn drylwyr oherwydd nad yw disgwyliadau arweinwyr o ansawdd yr addysgu a'r dysgu bob amser yn ddigon uchel.

Mae gan yr ysgol galendr manwl o weithgareddau hunanwerthuso perthnasol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gwneud defnydd priodol o adborth disgyblion ac yn cyfarfod â chynrychiolwyr disgyblion yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gofyn am farn rhieni trwy arolygon a sesiynau drws agored poblogaidd gyda'r pennaeth bob hanner tymor, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan rieni.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio data ar berfformiad yn briodol. Yn ychwanegol, caiff gwybodaeth uniongyrchol ei chasglu trwy lwybrau profiad dysgu myfyrwyr, arsylwadau cymheiriaid a chraffu ar waith. Er bod y gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd addas i gasglu tystiolaeth, cânt eu defnyddio'n bennaf i fesur cydymffurfio â pholisi ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwybodaeth neu fedrau pwnc. At ei gilydd, nid yw'r prosesau hunanwerthuso ysgol gyfan yn ddigon cadarn i alluogi arweinwyr i ddatblygu darlun cywir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella, yn enwedig mewn addysgu ac arweinyddiaeth. Nid yw arweinwyr yn cyfosod y negeseuon allweddol o ystod o brosesau gwerthuso i flaenoriaethu'r prif feysydd sydd angen eu gwella. Mewn llawer o feysydd gwaith yr ysgol, mae barnau'n rhy hael.

Ar y cyfan, mae arweinwyr canol yn ymgymryd â gweithgareddau defnyddiol i adolygu eu meysydd cyfrifoldeb sy'n adlewyrchu'r rhai ar lefel ysgol gyfan. Lle mae arweinwyr canol cryfach yn deall diben hunanwerthuso yn dda, maent yn canolbwyntio'n fuddiol ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn gwybodaeth a medrau pwnc ac ar effaith addysgu ac asesu. At ei gilydd, mae adrannau'n canolbwyntio'n ormodol ar gwblhau camau gweithredu yn hytrach na'u heffaith fwriadedig ar ddysgu.

Mae'r canfyddiadau eang o weithgarwch hunanwerthuso ysgol gyfan yn cysylltu'n addas â blaenoriaethau trosfwaol sy'n cyd-fynd â holl feysydd gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant yn ddigon manwl gywir neu heriol, ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith gwaith yr ysgol ar ddysgu, addysgu neu rai agweddau ar les. O ganlyniad, ni all arweinwyr lunio barnau cadarn am effaith eu gwaith.

Caiff staff eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol difyr a rhannu arfer. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwerthfawrogi cyfranogiad yn y 'cylch

ymholi cymheiriaid’. Mae hyn yn eu cynorthwyo i weithio gyda’i gilydd i ymchwilio a chwblhau eu prosiectau ymholi grŵp eu hunain. Hefyd, caiff athrawon gyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn llwybrau disgyblion. Er bod staff yn mwynhau’r nodweddion hyn o’u dysgu proffesiynol, nid yw’r gweithgareddau’n canolbwyntio ar agweddau penodol ar addysgu yn ddigon da, ac o ganlyniad, nid ydynt yn effeithio’n llawn ar ansawdd yr addysgu na’i effaith ar ddysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  20/01/2023